**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Llun, 27 Ionawr 2014 am 2.00 pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Raymond Bartley (Cadeirydd), Brian Blakeley (Is-Gadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, James Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Carys Guy, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Colin Hughes, Rhys Hughes, Hugh Irving, Alice Jones, Huw Jones, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams, Margaret McCarroll, Jason McLellan, Barry Mellor, Win Mullen-James, Bob Murray, Peter Owen, Dewi Owens, Gareth Sandilands, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Eryl Williams a/ac Huw Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM) a Moderneiddio a Lles (SE), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd a'r Swyddog Monitro (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Croesawyd y Cyng. P.W. Owen yn ôl i'r Cyngor yn dilyn cyfnod o salwch. Diolchodd y Cyng. Owen i'r Cynghorwyr am eu cefnogaeth a'u dymuniadau gorau tra roedd yn sâl.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ian Armstrong, Meirick Davies, Pat Jones, Merfyn Parry, Paul Penlington, Arwel Roberts, David Simmons a/ac Cheryl Williams

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganodd unrhyw Aelod gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu ar unrhyw fater sy'n cael ei ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD

Roedd rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd, ar gyfer cyfnod rhwng 29 Tachwedd 2013 a 21 Ionawr 2014 wedi'u cylchredeg gyda phapurau’r cyfarfod. Diolchodd y Cadeirydd i'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd B. Blakeley, am ei gymorth yn ystod cyfnod prysur y Nadolig.

Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai Cinio Elusennol y Cadeirydd yn cael ei gynnal yng Ngwesty’r Oriel, Llanelwy ar 28 Mawrth 2014 a gwahoddwyd rhoddion tuag at y gwobrau raffl.

***PENDERFYNWYD** – y dylid derbyn y rhestr o ddigwyddiadau dinesig a fynychwyd ar ran y Cyngor gan y Cadeirydd a’r Is-Gadeirydd ac y dylid nodi sylwadau’r Cadeirydd.*

## 5 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2013.

***PENDERFYNWYD** derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2013 fel cofnod cywir.*

## 6 DR HIGSON, CADEIRYDD BWRDD BIPBC YN BRESENNOL

Rhoddodd y Cadeirydd gyflwyniad a chroesawodd Gadeirydd, Dr Higson, ac Is-Gadeirydd, Mrs Margaret Hanson, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i'r cyfarfod.

Diolchodd Dr Higson i'r Cyngor am y cyfle i annerch yr Aelodau a rhoi manylion am gynlluniau a nodau yn y dyfodol ar gyfer y Bwrdd a’r Gwasanaeth Iechyd. Cyfeiriodd at bwysigrwydd atebolrwydd democrataidd ac amlinellodd rai o'r heriau allweddol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Cyfeiriwyd at y raddfa fawr o ailadeiladu sydd ei angen ac eglurwyd bod rhai o'r materion a'r heriau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd yn hanesyddol ac yn gysylltiedig â chychwyn y Bwrdd yn 2009.

Amlygwyd y meysydd allweddol canlynol gan Dr Higson:-

- Yr angen i adfer ffydd a hyder yn y Bwrdd Iechyd gan y cyhoedd, cleifion, staff, partneriaid a budd-ddeiliaid megis Awdurdodau Lleol.
- Penodi Prif Weithredwr newydd, gyda gwahoddiadau yn cael eu hestyn i Arweinyddion y priod Awdurdodau Lleol i gymryd rhan yn y broses benodi.
- Roedd Cyfarwyddwr Meddygol a Chyfarwyddwr Nyrsio newydd wedi eu penodi i'r Uwch Dîm Gweithredol. Roedd dau Uwch Gyfarwyddwr Clinigol wedi eu penodi hefyd, ac eglurwyd bod agwedd newydd tuag at ddarparu cefnogaeth ar gyfer staff.
- Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r Rhaglen Gwella Ansawdd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Y nod yw gwella ansawdd darpariaeth gwasanaeth gan

sicrhau bod gwasanaethau yn ddiogel a'u bod yn cael eu darparu gydag urddas, parch a thosturi.

- Bydd adolygiad yn cael ei gynnal i asesu effaith y newidiadau a weithredwyd yn ystod y deuddeg mis diwethaf.
- Newid mewn ffocws o redeg Ysbytai yn unig a darparu gofal eilaidd i wella iechyd y boblogaeth yn gyffredinol.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod yn fwy agored a thryloyw, ynghyd â'r angen i wella cysylltiadau cyfathrebu.
- Yr angen i ddangos tystiolaeth gyhoeddus o'r gwelliannau sy'n cael eu cyflawni o fewn y gwasanaeth, ac i fod yn gadarn wrth gydnabod a mynd i'r afael ag unrhyw gamgymeriadau.
- Bod angen datblygu, drwy weithio mewn partneriaeth, weledigaeth strategol glir ar gyfer y Gwasanaeth Iechyd yng Ngogledd Cymru.
- Y gofyniad i adfywio ac ail-ymgysylltu â gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol.
- Cadarnhawyd y byddai pob un o'r prif ysbytai yn cadw eu Hadrannau Damweiniau ac Achosion Brys gyda gwasanaethau arbennig yn cael eu darparu ym mhob un o'r Ysbytai priodol. Cyfeiriodd Dr Higson at gwblhau'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys newydd yn Ysbyty Glan Clwyd. Gofynnodd y Cynghorydd B. Mellor bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu Uned fach Damweiniau ac Achosion Brys yn Ysbyty Alexandra, y Rhyl i helpu i leddfu'r pwysau a wynebir.
- Hysbysodd Dr Higson yr Aelodau y gallai tua 100 o welyau ychwanegol gael eu darparu pe bai'r pwysau ar nifer y gwelyau yn cynyddu. Gofynnodd y Cynghorydd S.A. Davies fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddarparu gwelyau yn y Ganolfan Iechyd newydd yn Llangollen.
- Bydd gweithio'n agosach gydag Awdurdodau Lleol yn cael ei ddatblygu drwy berthnasoedd gwaith gwell, a chyfeiriwyd yn arbennig at ddarparu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a chyflwyno ystod ehangach o wasanaethau integredig.
- Cyfeiriwyd at ofyniad Llywodraeth Cymru bod y Bwrdd Iechyd yn cyflwyno Datganiad o Fwriad ar ddarparu gwasanaethau integredig. Cadarnhaodd Dr Higson fod pob un o'r chwe Awdurdod Lleol wedi arwyddo'r Datganiad o Fwriad a oedd yn rhoi tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth gan fudd-ddeiliaid yng Ngogledd Cymru.

Hysbysodd yr Is-Gadeirydd, Mrs M. Hanson, y Cyngor fod ei phortffolio ar y Bwrdd Iechyd yn cwmpasu Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Cymunedol a Gwasanaethau Gofal Sylfaenol. Rhoddodd Mrs Hanson wybodaeth am gynlluniau'r Bwrdd a'r Gwasanaeth Iechyd a chyfeiriodd at bwysigrwydd ac arwyddocâd gwaith partneriaeth wrth fynd i'r afael â materion iechyd a lles. Eglurodd fod meysydd allweddol yn ymwneud â materion iechyd yn cael eu hymgorffori ym mhortffolios y Cyngor a oedd yn cynnwys Tai, Cynllunio, Trafnidiaeth a Gwasanaethau Cymdeithasol, a phwysleisiodd bwysigrwydd gwrando ar farn a safbwyntiau a fynegwyd gan yr aelodau o'r cyhoedd sy'n byw yn y gymuned.

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i Aelodau holi cwestiynau a chafwyd yr ymatebion canlynol gan Dr. Higson a Mrs Hanson i'r materion a godwyd:-

- Pwysleisiodd Dr Higson werth Ysbytai yng Ngogledd Cymru. Eglurodd nad oedd y pwysau o ran derbyniadau diweddar yn Ysbyty Glan Clwyd wedi ei feio ar

bobl oedrannus. Roedd y Bwrdd wedi trafod y broblem, a oedd wedi ei briodoli i gleifion sydd ag anghenion meddygol cymhleth, a daethpwyd i'r casgliad y byddai'r mater o nifer y gwelyau a defnydd effeithiol o adnoddau yn ystod y gaeaf yn cael ei adolygu.

- Cydnabu Dr Higson y bu materion o bryder yn ymwneud â gwasanaethau cymunedol, gyda gwasanaethau yn cael eu tynnu'n ôl cyn darparu gwasanaethau newydd neu wasanaethau i'w disodli.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd E.A. Jones ynghylch darpariaeth barhaus Meddygfa Frys yn Ysbyty Glan Clwyd, esboniodd Dr Higson fod materion yn ymwneud â hyfforddeion ac addawodd ymatebion ysgrifenedig i unrhyw gwestiynau nad oedd yn gallu darparu ymateb iddynt.

- Hysbyswyd yr Aelodau y cynhelir dadansoddiad o'r rhesymau dros gleifion yn osgoi'r gwasanaethau tu allan i oriau o blaid mynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys.

- Rhoddwyd manylion y Cynllun Tymhorol yn ymdrin â'r cyfnod rhwng mis Tachwedd a mis Mawrth. Esboniodd Dr Higson nad oedd yr amgylchiadau yn ymwneud ag atal rhai categorïau o lawdriniaethau wedi codi o ganlyniad i nifer o gleifion, ond cymhlethdod eu hanghenion meddygol. Cadarnhaodd fod cyhoeddiad wedi ei wneud i adfer llawdriniaethau a gynlluniwyd yn raddol, a darparwyd manylion i'r Aelodau yn ymwneud â sut mae cynllun galw cynyddol y Bwrdd Iechyd wedi ei gyfleu.

- Roedd materion o ran gwelyau caeedig yn parhau o ganlyniad i broblemau a gafwyd gyda'r broses o recriwtio staff nyrsio, a materion trwyddedu sy'n ymwneud â meddygon dan hyfforddiant.

- Eglurodd Dr Higson y gallai ffydd yn y Bwrdd Iechyd gael ei adfer drwy ddarparu gwybodaeth agored, onest a thryloyw drwy sianelau cyfathrebu dibynadwy, a thrwy fynd i'r afael â materion sy'n peri pryder yn rhagweithiol ac yn gyhoeddus.

- Tynnodd Dr Higson sylw at fanylion yn ymwneud â'r Contract Cenedlaethol i Feddygon Teulu, a drafodwyd yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mewn ymateb i bryderon ynglŷn â materion mynediad at Feddygon Teulu, eglurwyd bod y strwythur gofal sylfaenol yn newid a bod gwaith yn cael ei wneud gyda meddygfeydd i wynebu a mynd i'r afael â'r heriau a'r pwysau sy'n cael eu cyflwyno. Derbyniwyd yr angen am drafodaeth bellach o ran gweithio rhanbarthol, gydag adrannau o'r gymuned wedi mynegi eu dymuniad am fwy o awdurdod dirprwyedig a lleoliaeth.

- Dywedwyd wrth yr Aelodau bod swm sylweddol o waith wedi ei wneud yn ystod y chwe mis diwethaf i fynd i'r afael â mater o gyfraddau heintiau. Cytunodd Dr Higson i anfon gwybodaeth a ystyriwyd gan y Bwrdd ynghylch y mater hwn.

- Trafodwyd mater amseroedd aros gormodol yn ddiweddar yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd. Tynnwyd sylw at yr angen i archwilio a mynd i'r afael â

chynhyrchiant, ynghyd â goblygiadau archwilio gofal doeth a gwerthuso gwaith a wnaed yn y Gwasanaeth Iechyd. Hysbyswyd yr Aelodau bod gwaith yn cael ei wneud gyda Byrddau Iechyd eraill a Llywodraeth Cymru i ddatblygu gweledigaeth a chyfeiriad strategol.

- Pwysleisiodd Dr Higson bwysigrwydd hunaniaeth y Bwrdd Iechyd. Amlygodd yr angen i gynnal hunaniaeth leol gref heb golli cysondeb ar draws Gogledd Cymru. Cyfeiriwyd at bwysigrwydd denu arbenigedd mewn gwahanol feysydd meddygol ac at wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael drwy weithio mewn partneriaeth.

- Hysbyswyd yr Aelodau bod y ddarpariaeth gwasanaeth Gofal Iechyd Meddwl wedi ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ac y byddai'r gwasanaeth yn cael ei adfer yn llawn yn y dyfodol agos. Cydnabu Dr Higson broblemau parcio yn Ysbyty Glan Clwyd, ac eglurodd y byddai angen rhoi ystyriaeth i reoli llif y traffig.

- Ymatebodd Mrs Hanson i gwestiynau yn ymwneud ag Adroddiad Comisiwn Williams. Cyfeiriodd at yr anawsterau a’r heriau a allai godi yn sgil newidiadau i’r diwylliant gweithredu.

Diolchodd y Cadeirydd i Dr Higson a Mrs Hanson am fynychu'r cyfarfod a darparu cyflwyniad llawn gwybodaeth.

***PENDERFYNWYD** - bod y Cyngor yn derbyn ac yn nodi cynnwys y cyflwyniad.*

## 7 CYLLIDEB AR GYFER 2014/2015

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau, a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses o bennu'r gyllideb ac yn manylu ar y cynigion i sefydlu cyllideb refeniw y Cyngor ar gyfer 2014/15, wedi ei ddosbarthu cyn y cyfarfod.

Cyflwynodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill yr adroddiad ac eglurodd fod dadansoddiad o’r Setliad Llywodraeth Leol Drafft a'r canlyniadau ar gyfer y Cyngor wedi dangos y byddai angen arbedion o tua £8.5 miliwn, ac roedd hyn wedi'i gadarnhau yn y Setliad Terfynol a dderbyniwyd yn Rhagfyr. Roedd proses y gyllideb hyd yn hyn wedi arwain at arbedion o £1.7miliwn ar gyfer 2014/15 yn cael eu cymeradwyo ym mis Medi, Cam 1, a £4.7miliwn, Cam 2, ym mis Rhagfyr. Roedd Atodiad 2 yn cynnwys manylion am yr arbedion.

Roedd arbedion Cam 1 yn eitemau a gynigir fel rhan o broses Herio Gwasanaeth 2012/13 a 2013/14. Roedd arbedion Cam 2 wedi eu cyflwyno i weithdy cyllideb Aelodau ym mis Hydref ac roedd pob cynnig wedi ei gyflwyno gan Aelodau Arweiniol, gan roi manylion am yr arbediad, yr effaith ac asesiad o risg. Yn dilyn hynny, gwahoddwyd Aelodau Etholedig i roi sylwadau ar unrhyw un o'r cynigion cyn cyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

Roedd Camau 1 a 2 yn nodi arbedion o £6.459miliwn, gan adael bwlch o tua £2.0miliwn a oedd wedi bod yn ffocws trydydd gweithdy cyllideb a gynhaliwyd ym

mis Rhagfyr.  Roedd y papurau wedi eu dosbarthu ymlaen llaw i'r holl Aelodau a'u cyhoeddi ar Modern.gov.

Thema allweddol y gweithdy oedd cyflwyno manylion ac opsiynau i gael eu hystyried i bontio'r bwlch o £2miliwn yn y gyllideb ar gyfer 2014/15.

Roedd y wybodaeth allweddol a gyflwynwyd yn cynnwys:-

- Diweddariad ar sefyllfa cyllidebau gofal cymdeithasol ac addysg yn ystod y flwyddyn
- Dadansoddiad o gyllid ysgolion
- Opsiynau i gynyddu cyllidebau ysgolion
- Adolygiad o falansau a chronfeydd wrth gefn
- Diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol
- Opsiynau Treth y Cyngor
- Cynigion Arbedion Ychwanegol
- Argymhelliad i gydbwyso'r gyllideb

Roedd cynigion i bontio'r bwlch o £2miliwn wedi eu cynnwys yn atodiad 1.  Roedd y cynigion arbedion ychwanegol ar gyfer 2014/15 yn ymwneud â dwyn ymlaen arbedion a nodwyd yn flaenorol ar gyfer 2015/16 ac roedd yn gyfanswm o £395mil. Roedd £95mil yn ymwneud â dwyn ymlaen ailstrwythuro mewn Cynllunio Busnes a Pherfformiad ac roedd £300mil yn ymwneud â’r cynnig i gael gwared â’r cyfraniad a gyllidebwyd i falansau flwyddyn yn gynt nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.  Roedd yr argymhelliad yn cynnwys cynnig i ddefnyddio balansau cyffredinol fel rhan o'r gyllideb yn 2014/15.   Er bod y gweithdy wedi bod yn ddigwyddiad anffurfiol, roedd derbyniad yn gyffredinol i’r argymhelliad i gydbwyso'r gyllideb ac roedd trafodaeth bellach yn ofynnol o amgylch lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor.

Byddai'n rhaid i'r Cyngor gytuno ym mis Chwefror 2014 ar gynigion cyllideb terfynol a lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15. Yng ngweithdy diweddaraf y gyllideb roedd barn wedi ei mynegi yn anffurfiol am lefel y cynnydd yn Nhreth y Cyngor.  Roedd yr opsiynau a'r goblygiadau wedi eu cynnwys mewn tabl yn yr adroddiad a oedd yn dangos bod cynnydd o 3.5% yn gytbwys.  Roedd rhai Aelodau wedi gofyn am ystyried lefel is.

Eglurodd y Prif Weithredwr mai’r lefel gyfartalog yng Nghymru oedd 4% a rhoddodd gyngor taer yn erbyn y defnydd pellach o falansau.  Pwysleisiodd y byddai'n amhosibl cyflawni arbedion pellach o wasanaethau mewn cyfnod o 2 fis. Cymeradwyodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill y farn y gallai defnyddio arian o'r cronfeydd wrth gefn waethygu'r broses o bennu'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf, ac eglurodd mai cynnydd o 3.5% wedi cael ei ystyried fel lefel fwyaf priodol.

Roedd Atodiad 1 yn nodi’r cynigion arbedion ac roedd yn dangos y byddai'n anodd i wasanaethau sicrhau arbedion pellach.  Byddai hyn yn gadael balansau fel yr unig ffynhonnell gyllid i lenwi unrhyw fwlch o ganlyniad i Treth y Cyngor is.  Roedd cynigion yn Atodiad 1 yn cynnwys y defnydd o £500mil o falansau a dileu’r gyllideb sy'n 'ychwanegu at' y balansau bob blwyddyn.  Roedd pwysigrwydd lefelau priodol

o falansau wedi ei amlygu gan ddigwyddiadau llifogydd mawr, tywydd garw yn y gaeaf a hawliad mawr annisgwyl gan gwmni yswiriant blaenorol y Sir.

Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau na fyddai'r defnydd o falansau'n datrys problemau sylfaenol ond yn hytrach byddai'n gorchuddio twll parhaol yng nghyllid y Cyngor dros dro. Ni fyddai cyllideb 2014/15 yn caniatáu ar gyfer unrhyw bwysau cost penodol i wasanaethau gyda chwyddiant wedi ei gynnwys yn rhagdybiaethau'r gyllideb yn gorfforaethol. Roedd buddsoddi mewn blaenoriaethau wedi'i gynnig ar lefel o £750mil ac roedd cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol yn dibynnu ar gyllideb ac adnoddau arian parod i hwyluso Benthyca Darbodus. Roedd dyraniad arfaethedig cyllid buddsoddi ar gyfer 2014/15 yn £650mil ar gyfer Moderneiddio Addysg/Ysgolion yr 21ain Ganrif a £100mil ar gyfer Gwelliannau Priffyrdd/Ffyrdd.

Pwysleisiodd y Cynghorydd H.H. Evans y camau a gymerwyd gan yr Awdurdod i ddiogelu swyddi a gwasanaethau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb gan, a thynnodd sylw at y pwysigrwydd o roi ystyriaeth i gyllideb y flwyddyn nesaf wrth bennu'r gyllideb eleni. Cyfeiriodd y Cynghorydd C. Hughes at yr angen i fod yn agored ac yn dryloyw ynglŷn â goblygiadau'r gyllideb mewn perthynas â cholledion posibl o ran swyddi yn y dyfodol.

Darparwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau a materion a godwyd gan Aelodau:-

- Cytunodd y Cynghorydd Thompson-Hill y gallai materion a godwyd gan y Cynghorydd S.A. Davies o ran tynnu cyllid yn ôl o bosibl gan yr Awdurdod ar gyfer swyddog Undeb Llafur, tegwch cyllid i'r AHNE gan yr Awdurdodau aelod perthnasol a lefel y ddarpariaeth cyllid i Hamdden Clwyd gael eu trafod yn y dyfodol. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau o ran amserlen, ni ellid ystyried y materion hyn ar gyfer y broses o bennu cyllideb 2014/15.
- Eglurwyd bod Setliad Sir Ddinbych wedi bod yn isel o ganlyniad i ganfyddiadau Cyfrifiad 2001. Eglurodd y Cynghorydd H.H. Evans mai'r Setliad oedd y gwaethaf a brofwyd gan Sir Ddinbych.
- O ran cynigion arbedion Cam 1 a 2 2014/15 mewn perthynas ag arbedion o fewn y Gwasanaethau Oedolion a Busnes, eglurwyd bod arbedion sylweddol wedi'u dangos eisoes o dan arbedion Cam 1 y cytunwyd arnynt ym mis Medi.
- Rhoddodd y Prif Weithredwr gadarnhad nad oedd Adroddiad Comisiwn Williams wedi argymell y defnydd o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Leol i ariannu ad-drefnu Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, roedd cyfeiriad wedi'i wneud yn yr Adroddiad at un Awdurdod Lleol a oedd wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn at y diben hwn.
- Eglurodd y Prif Weithredwr y byddai nifer o ffactorau a materion, fel niferoedd disgyblion ac amrywiadau, yn dylanwadu ar ddarpariaeth arian ysgolion, a chadarnhaodd fod Sir Ddinbych yn trosglwyddo eu gofynion ac yn amddiffyn y prosiect ysgolion yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru.
- Hysbyswyd yr Aelodau bod gwaith yn cael ei wneud o ran gwella gwasanaethau caffael drwy Gonsortiwm Prynu Cymru a gweithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol cyfagos. Eglurwyd bod Sir Ddinbych wedi bod yn arwain y ffordd wrth symud y fframwaith hwn ymlaen.
- Eglurodd y Cynghorydd E.W. Williams na fyddai derbyn cynnydd o 3% yn gwarantu diogelwch swyddi a gallai greu neu hwyluso diweithdra. Dywedwyd wrth

yr Aelodau nad oedd ffigurau ar gael sy'n ymwneud â cholli swyddi posibl o ganlyniad i'r cynigion arbedion.

- Hysbysodd y Cynghorydd D.I. Smith y Cyngor, yn dilyn diwedd Taith, y byddai cyllid yn cael ei rannu rhwng yr Awdurdodau sy'n aelodau. Byddai cyfarfod brys o Taith yn cael ei gynnal ar 29 Ionawr i ystyried unrhyw oblygiadau. Cadarnhaodd y Cynghorydd Thompson-Hill y gallai pwysau ar y gyllideb godi i'r Awdurdod o ganlyniad i ddiwedd Taith.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd eglurodd y Cynghorydd T.R. Hughes na fyddai'n gallu cefnogi'r argymhelliad yn yr adroddiad i gymeradwyo cynnig y gyllideb ar gyfer 2014/15 fel y dangosir yn Atodiad 1, a'r cynnydd o 3.5% yn lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15. Cynigiodd y Cynghorydd Hughes welliant i'r argymhelliad yn yr adroddiad, sef bod y cyllid o £200mil a ddyrannwyd gan y Cabinet i Hamdden Clwyd yn cael ei leihau i £50mil, ac y dylid defnyddio'r £150mil sy'n weddill i leihau lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd J. Butterfield. Fodd bynnag, yn dilyn toriad byr o'r cyfarfod tynnodd ei chefnogaeth yn ôl. Yna eiliodd y Cynghorydd E.A. Jones gynnig y Cynghorydd Hughes am resymau democrataidd.

Eglurodd y Cynghorydd H.H. Evans y byddai angen i unrhyw newid gael ei gefnogi drwy ddarparu cynigion amgen cyraeddadwy a derbyniol. Eglurodd y Cynghorydd H.Ll. Jones, er mwyn sicrhau a chynnal cydraddoldeb, y byddai gostyngiad mewn cyllid ar gyfer Hamdden Clwyd o £200mil i £50mil yn effeithio ar Ganolfannau Hamdden yn y Sir.

Yn dilyn trafodaeth bellach, tynnodd y Cynghorydd T.R. Hughes ei ddiwygiad yn ôl. Yna aeth yr argymhellion yn yr adroddiad i bleidlais ac fe'u cariwyd, ac fe:-

***BENDERFYNWYD*** *– bod y Cyngor:-*

*(a) yn cymeradwyo'r cynnig gyllideb ar gyfer 2014/15 fel y dangosir yn Atodiad 1, a*

*(b) yn cymeradwyo cynnydd o 3.5% yn lefel Treth y Cyngor ar gyfer 2014/15.*

## 8 CYNLLUN GOSTYNGIAD TRETH Y CYNGOR

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau wedi ei ddosbarthu gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Rhoddodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill grynodeb o'r adroddiad a oedd yn manylu ar fabwysiadu Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor Cymru Gyfan a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) Gwelliannau 2014, a chynnwys arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru o tua £90mil i helpu i gefnogi'r diffyg yn y cyllid ar gyfer y cynllun ar gyfer 2014/15.

Eglurodd y Cynghorydd Thompson-Hill fod Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu Budd-dal Treth y Cyngor yn ei ffurf bresennol ar draws y DU. Roedd Budd-dal Treth y Cyngor wedi dod i ben o 31 Mawrth 2013 ac roedd y

cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth ar gyfer treth y cyngor, a chyllid cysylltiedig, wedi trosglwyddo i Lywodraeth Cymru. Roedd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol wedi cyflwyno cynllun newydd i ddarparu cymorth treth y cyngor, i'w mabwysiadu gan y Cyngor ym mis Ionawr, 2013. Roedd LIC wedi cymeradwyo’r ddwy set o reoliadau yn fis Ionawr 2014 ac roedd gofyn mabwysiadu Rheoliadau newydd Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau diwygio 2014, erbyn 31 Ionawr 2013.

Yn ystod 2013/14 cyflwynodd Llywodraeth Cymru fenter yn rhoi arian ychwanegol i bensiynwyr, nad oedd yn gymwys i gael Cymorth Treth y Cyngor. Roedd y grant hwn yn cael ei wrthbwyso yn erbyn eu rhwymedigaeth Treth y Cyngor. Roedd Sir Ddinbych wedi rhoi gwerth £132mil o grantiau, ac yn y rhan fwyaf o achosion arweiniodd hyn at ad-daliad ar gyfer Treth y Cyngor a ordalwyd yn cael ei dalu i'r cwsmer.

Wrth ystyried datblygu cynllun newydd ar gyfer 2014/15 roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno y dylai'r cynllun diwygiedig ddilyn y paramedrau canlynol:-.

- Parhau gydag un cynllun a ddiffinnir yn genedlaethol i ddarparu lefel gyson o gymorth i hawlwyr ar draws Cymru. Uchafswm lefel y cymorth wedi’i osod ar 100%.
- I Parhau i ddarparu nifer fach o elfennau dewisol, yn debyg i'r rhai sydd ar gael o dan y cynllun presennol, gan ganiatáu i Awdurdodau Lleol ymateb i'w hamgylchiadau lleol gwahanol, ar yr amod bod y costau o unrhyw amrywiad lleol yn cael eu hariannu yn lleol.
- Parhau i fod yn seiliedig ar ddiwygiad o’r system Budd-dal Treth y Cyngor blaenorol, tan 2015-16 fel bod risgiau gweithredol yn cael eu rheoli ac y gallai cymorth barhau i gael ei ddarparu.
- Lle bo'n bosibl, symleiddio'r trefniadau cymhleth presennol.
- Cael gwared ar y cymal machlud sy'n cyfyngu ar ei gylch oes i un flwyddyn.
- Cynnwys Taliadau Budd-daliadau Lles ychwanegol fel Taliadau Annibyniaeth Bersonol, Credyd Cynhwysol a Thaliadau Annibyniaeth Lluoedd Arfog.

Roedd Elfennau dewisol ar gyfer penderfyniad y Cyngor yn cynnwys: -

(a) Y gallu i gynyddu'r cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bobl ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith os ydych wedi bod yn derbyn budd-dal cymwys perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

(b) Disgresiwn i ddiystyru rhan neu'r swm cyfan o Bensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiwn Rhyfel Gwraig Weddw wrth gyfrifo incwm.

(c) Y gallu i ôl-ddyddio dyfarniadau Cymorth Treth y Cyngor ar gyfer cwsmeriaid o oedran gweithio fwy na'r cyfnod safonol o 3 mis cyn y cais.

Dywedwyd wrth Aelodau bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyllid pellach o £90mil, sydd heb gael ei neilltuo gan nad ydynt bellach yn cefnogi'r grant ychwanegol tuag at bensiynwyr. Roedd amcanestyniadau cychwynnol yn dangos bod Sir Ddinbych yn wynebu diffyg cyllid ar gyfer cynllun 2014/15 o oddeutu £480mil ac awgrymwyd bod y grant ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i wneud iawn am y diffyg hwn.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd B.A. Smith, eglurodd y Cynghorydd Thompson-Hill y byddai gofynion pleidleisio yn y dyfodol yn dibynnu ar Reoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.

Yn dilyn trafodaeth bellach:- -

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Cyngor yn cytuno:-*

*(a) mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) Diwygiedig 2014.*
*(b) bod cymeradwyo 3 elfen ddewisol o'r cynllun, fel a ddangosir yn adran 4.1, yn cael ei barhau yn 2014/15, a*
*(c) chymeradwyo'r dyraniad o £90mil o gyllid ychwanegol, a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, i helpu i gefnogi'r diffyg wrth barhau â'r cynllun a ragnodir yn 2014/15.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a ddosbarthwyd gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod.

Hysbysodd y PGCD yr Aelodau y byddai'r yr agenda ar gyfer cyfarfod Briffio'r Cyngor i'w gynnal ddydd Mawrth 4 Chwefror 2014 yn cynnwys yr eitemau canlynol:-

- Prosiect Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru
- Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol
- Bil Cynllunio Cymru

Ar gais y Cynghorydd H.Ll. Jones, cytunodd y Cyngor fod yr eitem yn ymwneud â Grant Athletwyr Dawnus Sir Ddinbych yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Briffio'r Cyngor ar gyfer mis Ebrill 2014.

Cytunodd yr Aelodau fod cyfarfod Briffio'r Cyngor Arbennig yn cael ei gynnal yn gynnar ym mis Chwefror, 2014 i drafod goblygiadau Adroddiad Comisiwn Williams. Cytunwyd hefyd bod adroddiad gwybodaeth diweddariad mewn perthynas â Taith yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Briffio'r Cyngor yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *– yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor.*

*Daeth y Cyfarfod i ben am 4.50pm.*